**LC1263**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2006

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan VIII o Atodlen 1 i Reoliadau Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/666) ("y prif Reoliadau"). Diwygir Rhan VIII er mwyn rhoi effaith i’r cyfyngiadau ar fewnforio cynhyrchion sy’n deillio o adar a geir ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2005/760/EC fel y’i diwygiwyd. Gwnaed y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn Weithredol ar 14 Mawrth 2006, a daethant i rym ar 16 Mawrth.

Mae’r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ail-wneud deddfwriaeth a wnaed yn Saesneg yn unig o dan deitl tebyg ar ddiwedd 2005. Bu’r Rheoliadau hynny’n destun adroddiad anffafriol gan y Pwyllgor hwn am eu bod yn diwygio dim ond testun Saesneg y ddeddfwriaeth a wnaed yn ddwyieithog, gan adael y testun Cymraeg heb ei ddiwygio. Mae’r Rheoliadau presennol yn gweithredu argymhelliad y Pwyllgor y dylid ail-wneud y rheoliadau diwygio 2005 hynny yn ddwyieithog.

## Rheol Sefydlog 11.7

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**28 Mawrth 2006**